**PRIFYSGOL ABERYSTWYTH**

**POLISI CAFFAEL CORFFORAETHOL A DATGANIAD SWYDDOGAETHAU**

## DATGANIAD SWYDDOGAETHAU

1. Mae gan y Swyddfa Gaffael ym Mhrifysgol Aberystwyth gyfrifoldeb gweithredol, o fewn i amgylchedd pwrcasu datganoledig, dros y polisi caffael cyffredinol, strategaeth, mesur perfformiad, safonau, prosesau, gweithdrefnau, rheolaethau a hyrwyddo arfer dda. Mae caffael hefyd yn ymgysylltu â chwsmeriaid mewnol a chyrff rheoleiddiol allanol ar gyfer cydweithredu ac archwilio.

## CYLCH GWAITH

Mae Swyddfa Gaffael Prifysgol Aberystwyth yn gyfrifol yn weithredol am:

2. Ddarparu cyngor a chymorth i gwsmeriaid mewnol â gweithgareddau pwrcasu datganoledig.
3. Cymryd rhan mewn timau prosiect ar gyfer pwrcasau mawr yn ôl yr angen gan Uwch Reolwyr, yn cynnwys datblygu strategaethau caffael cysylltiedig, fel sy'n berthnasol.
4. Darparu neu drefnu hyfforddiant caffael, ar y cyd â'r Swyddfa Datblygu Staff.
5. Codi proffil caffael ymhlith Uwch Reolwyr a chwsmeriaid mewnol.
6. Mynd ati i sicrhau'r gwerth gorau am arian o weithgareddau caffael datganoledig a mesur yr arbedion.
7. Rheoli caniatâd cyn prynu sy'n ofynnol gan yr Uwch Reolwyr.
8. Rheoli a datblygu cysylltiadau â chwsmeriaid.
9. Sicrhau datblygiad personol parhaus.
10. Mynd ati i foderneiddio'r broses a gwelliannau cysylltiedig mewn gwybodaeth systemau a rheoli.
11. Datblygu cytundebau cyflenwi/gwasanaeth allanol newydd, lle gellir cyfiawnhau gwneud hynny.
12. Rheoli datblygiad cyflenwyr allweddol, rhesymoli a rhestrau cymeradwy cysylltiedig.
13. Helpu cwsmeriaid mewnol i lunio strategaethau nwyddau/categori allweddol.

## EFFAITH STRATEGOL

14. Yn ystod y flwyddyn ariannol 2012/13, roedd gwariant heblaw tâl y Brifysgol tua £45.9 miliwn y flwyddyn ac amcangyfrifwyd bod swm y gwariant y gellid dylanwadu arno o'r swm hwn ryw £26.6 miliwn. Felly, roedd y gwariant y gellid dylanwadu arno yn cyfateb yn fras i 22% o holl wariant y Sefydliad (£122.9 miliwn), gan adlewyrchu ystyriaeth fusnes sylweddol.

15. Mae cynllun gweithredu 5 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, 'Cyflawni'r Cysylltiadau' (Mehefin 2005), yn cynnwys mynnu 'gwell defnydd o'n hadnoddau' yn cynnwys yr angen i 'fanteisio ar gyfleoedd am gaffael mwy craff' fel ffordd o gyfrannu at "gyrff cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth y Cynulliad yn dod tua 1% yn fwy effeithiol flwyddyn ar ôl blwyddyn'.

16. Nododd adroddiad y Swyddfa Archwilio genedlaethol 'Caffael yn y Sector AU yng Nghymru' (Tachwedd 2004) fod y Sector Addysg Uwch yng Nghymru yn gwario £269m (36% o'i holl incwm) ar gaffael nwyddau a gwasanaethau yn 2002/03.

## POLISI

### Arferion Pwrcasu

17. Mae caffael yn y Brifysgol wedi'i ddatganoli i ddeiliaid cyllidebau â'r grym i bwrcasu o fewn i fframwaith o weithdrefnau a rheoliadau ariannol er mwyn sicrhau uniondeb ac atebolrwydd am benderfyniadau pwrcasu.

18. Datblygir a chynhelir safle mewnrwyd caffael a fydd yn darparu data eglur a chynhwysfawr yn sail i weithgareddau pwrcasu datganoledig.

19. Bydd y Brifysgol yn datblygu ac yn gweithredu datganiad ar foeseg, a bydd yn ofynnol i unigolion sy’n gyfrifol am bwrcasu gadw ato.

20. Bydd y Brifysgol yn ceisio defnyddio contractau/fframweithiau cenedlaethol, rhanbarthol neu sefydliadol i ddiwallu ei hanghenion, lle bo hynny’n ymarferol, gan wneud y defnydd uchaf posib o ‘restrau craidd’.

21. Bydd y Brifysgol yn mynd ati i gynyddu’n raddol nifer y cyfleoedd caffael priodol a gyflwynir i gyflenwyr â diddordeb drwy gyfryngau ar y we e.e. Sell2Wales.

22. Bydd y Brifysgol yn mynd ati i sicrhau’r gystadleuaeth orau posib yn ei gweithgareddau pwrcasu, sy’n gyson â gofynion ei gweithdrefnau a’i rheoliadau ariannol ei hun.

23. Wrth ymgysylltu â’r farchnad, bydd y Brifysgol yn cymhwyso meini prawf gwerthuso/dyfarnu contractau yn deg ac yn rhesymol gymesur â gofynion a risg, ac yn ystyrlon bob amser o’r angen am driniaeth gyfartal a chynnig esboniad adeiladol o’r sefyllfa i dendrwyr aflwyddiannus, pan ofynnir amdano.

**Gweithio Cydweithredol**

24. Bydd y Brifysgol yn ceisio cydweithredu o fewn ac ar draws sectorau, fel sy’n gymwys a lle bo’n ymarferol, i wneud gwelliannau sy’n cynnig gwerth am arian ac er mwyn rhannu cyngor, arweiniad a phrofiad.

25. Bydd y Brifysgol yn parhau yn aelod gweithgar o Gonsortiwm Pwrcasu Addysg Uwch Cymru a Fforwm Caffael Ceredigion.

**Cynaliadwyedd**

26. Bydd y Brifysgol yn datblygu ac yn gweithredu Strategaeth Bwrcasu Gynaliadwy ac yn defnyddio Pecyn Caffael Cynaliadwy Gwerth Cymru i asesu a mesur ei safle presennol a pharatoi cynllun gweithredu i wella ei pherfformiad ymhellach.

27. Bydd y Brifysgol yn sicrhau, lle bo hynny’n ymarferol, y rhoddir ystyriaeth, wrth werthuso cynigion, i elfennau cynaliadwy penderfyniadau pwrcasu.

**Iechyd a Diogelwch**

28. Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod gweithgareddau caffael yn cwmpasu ystyriaethau Iechyd a Diogelwch yn unol â chyngor ac arweiniad Swyddfa Iechyd ac Amgylchedd y Brifysgol.

**Cyfeloedd Cyfartal ac Amrywiaeth**

29. Trwy ei gweithdrefnau caffael, bydd y Brifysgol yn sicrhau bod contractwyr neu is-gontractwyr sy’n darparu gwasanaeth yn ymwybodol o’u dyletswyddau i barchu amrywiol ymrwymiadau’r Brifysgol, yn unol â’r hyn a nodir yn ei Pholisïau Cydraddoldeb Hiliol a Chyfle Cyfartal ac Amrywiaeth.

30. Bydd canllawiau caffael y Brifysgol yn cynnwys cyfeiriadau at ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud penderfyniadau pwrcasu, lle bo hynny’n rhesymol, yn gymesurol ac yn briodol.

31. Mae’r Brifysgol yn estyn croeso cynnes i dendrau o bob rhan o’r gymuned ac yn hyrwyddo gweithdrefnau pwrcasu teg, yn ddiragfarn.

**Deddf a Chynllun yr Iaith Gymraeg**

32. Mewn dogfennau a chontractau tendro, bydd y Brifysgol yn nodi’r gofynion penodol o ran defnyddio’r Gymraeg ac yn monitro cyflawni’r gofynion hyn gan gontractwyr.

33. Fel rheol, cyhoeddir dogfennau tendro yn Saesneg yn unig er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol posib o arian cyhoeddus a sicrhau bod y broses dendro yn gost-effeithlon.

34. Bydd y Brifysgol yn ystyried defnyddio llythyron a thempledau caffael dwyieithog, lle bo’n briodol.

**PERFFORMIAD**

35. Bydd Caffael yn cofnodi arbedion gan ddefnyddio Model Mesur Effeithlonrwydd y Sector Addysg Uwch.

36. Bydd y Rheolwr Caffael yn paratoi Adroddiad Blynyddol (a mesurau perfformio ychwanegol yn cynnwys cynnydd yn unol â Chynlluniau Gweithredu perthnasol) er mwyn adrodd yn rheolaidd i'r Uwch Reolwyr, yn ôl y gofyn.

**CYFLENWYR**

37. Fesul tipyn, bydd y Brifysgol yn ceisio llunio a chytuno ar gynlluniau datblygu cyflenwyr a thargedau gyda'i phrif gyflenwyr; gan sicrhau bod perfformiad yn cael ei olrhain a'i adrodd, lle bo hynny'n bosibl.

38. Bydd canllawiau caffael y Brifysgol yn ceisio cymryd i ystyriaeth, lle bo'n ymarferol, yr argymhellion a welir yn 'Agor Drysau: Y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig' a luniwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

39. Bydd y Brifysgol, fel sy'n briodol, yn ystyried manteision partneriaethau a chydweithredu tymor hir â chyflenwyr allweddol.

M.K.Smith
Rheolwr Caffael